| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **28 Medi 2020** |
| **TEITL** | **Cyfrifon Terfynol Ysgolion Blwyddyn Gyllidol 2019/20** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion** |

**1 Cyfrifon Terfynol 2019/20**

1.1 Atodir er gwybodaeth manylion balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2020 (**atodiad 1**).

1.2 Crynodeb o falansau ysgolion ar 31/03/2020 -

| | canran | 31/03/2019 | cynnydd+/ lleihad- | 31/03/2020 | canran |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | 7.08% | £2,481,037 | -£11,844 | £2,469,193 | 7.09% |
| Dilynol | 17.06% | £484,789 | -£85,895 | £398,894 | 9.20% |
| Uwchradd | 3.02% | £973,687 | +£454,873 | £1,428,560 | 4.39% |
| Arbennig | 1.62% | £60,860 | -£24,517 | £36,343 | 0.91% |
| **Cyfanswm** | **5.42%** | **£4,000,373** | **+£332,618** | **£4,332,991** | **5.72%** |

1.3 Heblaw cynnydd o £454,873 yn y sector uwchradd, mae balansau'r sectorau eraill wedi lleihau.

1.4 O gymharu gyda'r sefyllfa ar ddiwedd 2018/19 pan oedd 7 ysgol gyda cyfanswm diffyg gwerth -£207,106, ar ddiwedd 2019/20 5 ysgol sydd gyda diffyg ariannol a hynny gwerth -£136,608.

1.5 Mae cyfanswm y balansau sydd dros 5% wedi cynyddu o £1,736,732 (67 ysgol) ar 31/03/2019 i £2,048,358 (60 ysgol) ar 31/03/2020.

## 2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

2.1 Mae gan yr Adran Addysg rym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o'u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion Uwchradd ac Arbennig. Yn absenoldeb unrhyw ddarpariaeth benodol yn y Rheoliadau, trothwy o £100,000 sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Ysgolion Dilynol.

2.2 Mae'r drefn gweithredu yn parhau fel y llynedd –

- pob ysgol gyda dros 5% o falansau neu gyda balansau dros y trothwy i gwblhau holiadur ar ddefnydd bwriedir erbyn 3 Gorffennaf 2020
- yn ddibynnol ar gynnwys yr holiadur a posib sgwrs gyda'r ysgol Adran Addysg yn cyfarwyddo sut i ddefnyddio'r balansau a hynny erbyn 30 Medi 2020
- adolygu os ydi ysgol wedi gweithredu yn unol a chyfarwyddid yr Adran Addysg ac os ddim tynnu'r arian yn ôl erbyn 31 Rhagfyr 2020
- yn sgil COVID-19 mae'r amserlen yma wedi llithro
- hefyd ym mis Mehefin eleni rhoddwyd cyfle i swyddogion gyflwyno sylwadau am fuddsoddiadau penodol fyddai yn arwain at wella'r ysgol

2.3 Mae atodiad 1 yn amlygu'r symiau ariannol sydd dros y trothwyon –

- 19 ysgol gynradd (amrywio rhwng £314 a £66,579 uwchben y trothwy o £50mil)
- 1 ysgol ddilynol (£334,473 uwchben trothwy o £100mil)
- 6 ysgol uwchradd (amrywio rhwng £26,493 a £429,297 uwchben y trothwy o £100mil)

## 3. Casgliad

3.1 Nid ydi datganiad ystadegol blynyddol Llywodraeth Cymru ar falansau ysgolion ar gyfer 31 Mawrth 2020 wedi'i gyhoeddi eto, ond mewn darn o waith ymysg cyfrifwyr ysgolion Cymru, namyn un awdurdod oedd heb ymateb, mae gan Gwynedd y cyfanswm diffyg tryddydd lleiaf yng Nghymru a'r cyfanswm balansau net tryddydd uchaf.

## 4. Argymhelliad

**4.1 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio yn agos gyda'r ysgolion gyda diffyg ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn clirio'r diffyg cyn gynted â phosib.**

**4.2 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid barhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**